

RHYS WILLIAMS

CLWB PÊL-DROED LLES CWM

Mae Rhys wedi bod yn chwarae i CPD Lles Cwm am lawer o flynyddoedd ac mae wedi sgorio sawl gôl. Ond, ei waith oddi ar y cae fel aelod o bwyllgor y clwb sydd fwyaf trawiadol!

Mar Rhys yn cynnal cyfrifon cyfryngau cymdeithasol y clwb ac fe yw'r rhyngwyneb rhwng pob un o 15 tîm Lles Cwm, gan weithredu fel arweinydd Cyfathrebu'r clwb.

Yn ei swydd o ddydd i ddydd, mae Rhys yn saer coed medrus iawn a gan ei fod yn ddyn

hael, mae wedi rhoi llawer o'i amser a'i arbenigedd i'r clwb, gan helpu i wella'r clwb a'r ystafelloedd newid yn barod ar gyfer y tymor newydd. Mae Rhys wedi gosod ceginau, lloriau, wedi adeiladu seddi a meinciau, gan arbed swm sylweddol o arian i'r clwb, a helpu i ddarparu cyfleusterau gwych i'r clwb a'r gymuned ehangach.



Chwaraeon RhCT
Sport RCT

**GWIRFODDOLWR
Y MIS**

MEDI 2023